GWIRIO IAITH

YDW I WEDI …

✓ Atalnodi'n gywir . , " " ! ?

✓ Defnyddio Prif Lythyren yn y lle iawn?

✓ Defnyddio paragraffau?

✓ Defnyddio Geiriadur a gwneud yn siŵr nad oes geiriau Saesneg yn fy ngwaith?

✓ Defnyddio'r ffordd gywir o siarad amdanaf i fy hun ac am bobl eraill:

<u>Yn y Presennol</u>:

Rydw i, Rwyt ti, Mae e/hi,

Rydyn ni, Rydych chi, Maen nhw

<u>Ac yn y Gorffennol</u>:

Roeddwn i, Roeddet ti, Roedd e/hi,

Roedden ni, Roeddech chi, Roedden nhw

✓ Defnyddio'r negyddol yn gywir:

Dydw i ddim / Doeddwn i ddim

✓ Defnyddio'r ferf gywir yn y gorffennol:

darllen-ais i	*darllen*-on ni
darllen-aist ti	*darllen*-och chi
darllen-odd e/hi	*darllen*-on nhw

✓ Defnyddio berfau eraill fel 'Es i', 'Ges i', 'Wnes i' a 'Des i' yn gywir:

Es i	Aethon ni
Est ti	Aethoch chi
Aeth e/hi	Aethon nhw

✓ Defnyddio ffurfiau TI a CHI yn gyson ac yn gywir:

Clywais amdanat ti / Clywais amdanoch chi

✓ Treiglo'n feddal ar ôl yr arddodiaid:

AM, AR, AT, GAN,
DROS, DRWY, WRTH, DAN,
HEB, HYD, I, O –

er enghraifft: gan gerdded, heb boeni, wrth ddychwelyd, o gar, i wlad arall, am ddeg o'r gloch …

✓ Treiglo'n feddal ar ôl yr arddodiaid rhedadwy: mae ganddo broblem, roedd ganddi ben tost?

✓ Treiglo'n drwynol ar ôl 'fy' ac 'yn' (= in): fy mhen, fy nghi, yng Nghymru?

✓ Defnyddio 'ei' unigol ac 'eu' lluosog yn gywir, ond cofio mai 'ei gilydd' sy'n gywir?

✓ Treiglo ansoddair (gair disgrifio) yn feddal ar ôl 'yn' er enghraifft: yn dlawd, yn benderfynol, yn flin, yn gegog.

YDW I WEDI DEFNYDDIO'R RHAIN I GYD YN IAWN?